# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2017

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Cyfarfod cyn y prif gyfarfod

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant - sesiwn graffu gyffredinol

(09.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 30)

Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr - Cymunedau a Threchu Tlodi
Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Briff Ymchwil

CYPE(5)-23-17 - Papur 1 - Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

**Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - Gwaith Ieuenctid**

(Tudalennau 31 - 32)

CYPE(5)-23-17 - Papur 2 - i'w nodi

**Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol**

(Tudalennau 33 - 34)

CYPE(5)-23-17 - Papur 3 - i'w nodi

**Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon - Fframwaith Diwygiedig ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru**

(Tudalen 35)

CYPE(5)-23-17 - Papur 4 - i'w nodi

**Llythyr gan y Llywydd - Gweithredu Deddf Cymru 2017**

(Tudalennau 36 - 38)

CYPE(5)-23-17 - Papur 5 - i'w nodi

**Datganiad gan Gomisiynydd Plant Cymru - Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

(Tudalennau 39 - 41)

CYPE(5)-23-17 - Papur 6 - i'w nodi

**Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes -Rhaglennu deddfwriaeth sydd ar y gweill**

(Tudalen 42)

CYPE(5)-23-17 - Papur 7 - i'w nodi

**Datganiad gan Grŵp Monitro CCUHP Cymru - pen-blwydd swyddogol cyntaf Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

(Tudalennau 43 - 45)

CYPE(5)-23-17 – Papur 8 – i'w nodi

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(11.00)

## Egwyl

(11.00 - 11.10)

## 5 Trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau

(11.10 - 11.20)

CYPE(5)-23-17 - Papur 9 - preifat

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 - trafod y dull gweithredu

(11.20 - 11.30)

(Tudalennau 46 - 50)

CYPE(5)-23-17 – Papur 10 – preifat (Saesneg yn unig)

## 7 Llythyrau gan y Llywydd - Rhaglennu deddfwriaeth sydd ar ddod a Gweithredu Deddf Cymru 2017

(11.30 - 11.40)

CYPE(5)-23-17 - Papur 11 - preifat

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Papur Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Sesiwn Graffu Gyffredinol: Dydd Iau 20 Gorffennaf 2017

---

Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch nifer o feysydd o fewn y portffolio Cymunedau a Phlant, gan gynnwys yr argymhellion perthnasol a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y Pumed Cynulliad. Nodir y rhain isod.

O ran y cyd-destun, fy nod ar gyfer y portffolio yw creu cymunedau diogel, cydlynol a chydnerth lle y gall pobl fyw, gweithio a magu eu plant gyda hyder yn eu dyfodol. Rydym yn rhoi dull newydd ar waith ar gyfer mynd i'r afael ag amddifadedd drwy ganolbwyntio ar achosion craidd tlodi, gan ymyrryd yn gynnar i alluogi plant i osod y sylfaen ar gyfer iechyd da a ffyniant gydol eu hoes. Byddwn hefyd yn helpu i wella ffyniant drwy oresgyn y rhwystrau i gyflogadwyedd a chyflogaeth barhaus gan wella mynediad i gartrefi diogel, effeithlon a fforddiadwy.

## Ymateb Llywodraeth Cymru i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Yn y gwrandawiad yng Ngenefa y llynedd, nododd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y cynnydd a wnaed yng Nghymru, er enghraifft o ran y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc mewn perthynas â gwella iechyd meddwl, a'r ymdrechion o ran cydgysylltu ymateb gwell i gam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Canmolodd hefyd sut mae'r hawl i chwarae'n cael ei hyrwyddo. Ni chyflwynwyd ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor hyd yn hyn a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am arwain ar hyn, fel Plaid y Wladwriaeth. Fodd bynnag, cyhoeddais ddatganiad i'r wasg yn syth ar ôl i'r Sylwadau Terfynol gael eu cyhoeddi a bwriadaf gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ar 12 Gorffennaf, yn amlygu'r cynnydd a wnaed yng Nghymru yn erbyn yr argymhellion yn y flwyddyn gyntaf hon. Yn y cyfamser, mae swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â chydweithwyr yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr i drafod hawliau plant a rhoi argymhellion 2016 ar waith. Yn fewnol, rydym yn rhannu'r argymhellion ar draws y llywodraeth i sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau mewn perthynas â'r holl argymhellion. Rydym hefyd yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid hawliau plant allweddol drwy'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant, i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn rhoi'r Sylwadau Terfynol ar waith.

Ar gyfer y meysydd hynny lle mae pwerau wedi'u datganoli, gwnaed cynnydd eisoes. Gan gadarnhau ymrwymiad y Llywodraeth hon i rianta cadarnhaol a hawliau plant, rydym wedi ymrwymo i roi deddfwriaeth ar waith a fydd yn cael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol. Fis Hydref y llynedd, cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad gynlluniau i sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru ac mae'n ymgynghori ar hyn ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn gofal plant o ansawdd gan y gwyddom fod hyn yn cefnogi teuluoedd o ran dewisiadau cyflogaeth. Gwyddom fod galluogi rhieni i gael mynediad i gyflogaeth yn gwella rhagolygon teuluoedd ac yn lleihau tlodi. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweithio gyda'r sector i sicrhau darpariaeth o ansawdd sy'n gynaliadwy ac sy'n rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i anghenion a chanlyniadau plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru.

**Y Strategaeth Tlodi Plant**

Rydym yn defnyddio dull llywodraeth gyfan o sicrhau ffyniant i bawb, ac nid yw bellach yn gyfrifoldeb i unrhyw Weinidog unigol. Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gydgysylltu mesurau trawsbynciol i hyrwyddo cyfleoedd economaidd ac mae Ysgrifenyddion Cabinet unigol yn arwain yn eu meysydd portffolio eu hunain. Mae trechu tlodi plant yn elfen hanfodol o'r portffolio Cymunedau a Phlant.

Yn ein Strategaeth Tlodi Plant a gyhoeddwyd yn 2015 nodir pum amcan strategol, sef:

1. Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi lle nad oes neb yn gweithio, gan fod plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith mewn perygl o fyw mewn tlodi.
2. Cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel fel eu bod yn gallu sicrhau cyflogaeth sy'n talu'n dda a datblygiad mewn gwaith, gan fod tlodi mewn gwaith yn broblem gynyddol.
3. Lleihau'r anghydraddoldeb o ran canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd trwy wella canlyniadau'r tlotaf. Mae atal tlodi yn hanfodol i'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer cefnogi aelwydydd incwm isel.
4. Defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i greu economi a marchnad lafur gref sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi ac yn lleihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru.
5. Helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwydydd trwy gynnig cyngor ynghylch dyledion a chyngor ariannol, camau gweithredu i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi" (lle mae aelwydydd yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau) a chamau gweithredu i liniaru effeithiau diwygiadau lles.

Mae'r amcanion yn seiliedig ar yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei nodi ynghylch lle y gallwn gael yr effaith fwyaf, o ran gwella canlyniadau i deuluoedd ar incwm isel. Maent hefyd yn adlewyrchu'r ysgogiadau polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi pum maes blaenoriaeth allweddol lle y gallwn wneud mwy gyda'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i wella canlyniadau i aelwydydd incwm isel ar unwaith. Y meysydd hyn yw gofal plant, tai ac adfywio, lleihau effeithiau diwygiadau lles, tlodi mewn gwaith a thlodi bwyd.

<u>Uchelgais i Ddileu Tlodi Plant</u>

Fis Rhagfyr diwethaf, gwnaethom gydnabod na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu cyflawni ei huchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Roedd yr uchelgais hon yn dibynnu'n fawr ar y camau y byddai Llywodraeth y DU yn eu cymryd ac amgylchiadau economaidd ehangach y DU.

Nid yw'r pwerau ariannol dros y system les sydd eu hangen er mwyn ysgogi unrhyw newid sylweddol mewn lefelau tlodi plant yn nwylo Llywodraeth Cymru, felly mae angen inni ganolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda'r ysgogiadau sydd ar gael inni. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth ynghylch ein huchelgais i ddileu tlodi plant a bydd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn parhau i ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trechu tlodi plant yng Nghymru. Fel y gwyddoch,

mae hyn yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus penodol i bennu amcanion ar gyfer trechu tlodi plant.

Gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a thlodi plant gael effaith ar ganlyniadau i blant, ond nid ydynt yr un fath. Weithiau gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, fel gwrthdaro rhwng rhieni a rhieni'n gwahanu, iechyd meddyliol gwael a chamddefnyddio sylweddau gael effaith ar lefelau o dlodi. Felly, mae ymdrin â phrofiadau o'r fath yn rhan hanfodol o'n dull o drechu tlodi plant a meithrin cydnerthedd plant a phobl ifanc. Bydd y gwaith ar brofiadau o'r fath yn mynd rhagddo ochr yn ochr â'r camau gweithredu sy'n cefnogi cyflawni amcanion y Strategaeth Tlodi Plant. Fodd bynnag, nid yw profiadau o'r fath wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n byw mewn tlodi, a dyna pam mae rhaglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf mor bwysig, gan eu bod ar gael i bawb. Mae ymyrryd yn gynnar a hyrwyddo rhianta cadarnhaol yn allweddol i fynd i'r afael ag esgeulustod. Mae ein rhaglenni fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, ynghyd â'n hymgyrch Magu Plant: Rhowch Amser Iddo, wedi'u hanelu at roi'r dulliau i rieni roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant.

**Dull Newydd o Feithrin Cymunedau Cydnerth**

Rydym yn cydnabod y llu o storïau llwyddiant unigol a briodolwyd i Cymunedau yn Gyntaf ond ni chafodd y rhaglen effaith ar lefelau tlodi cyffredinol yng Nghymru, sy'n aros yn ystyfnig o uchel. Mae newid yn anodd ond rhaid inni wneud penderfyniadau anodd i roi dull gweithredu newydd ar waith sy'n ymdrin ag achosion craidd tlodi ac nad yw wedi'i gyfyngu gan godau post.

Rydym yn rhoi dull llywodraeth gyfan ar waith o feithrin cymunedau cydnerth. Mae hyn yn canolbwyntio ar dri maes allweddol, sef y blynyddoedd cynnar, cyflogaeth a grymuso: datblygu cymunedau a all gynnig y dechrau gorau mewn bywyd i blant; cymunedau sy'n barod ac yn abl i weithio; a chymunedau sydd wedi'u grymuso ac sy'n ymgysylltiedig, yn ogystal â diogel a chryf.

Mae ffyniant yn rhoi sicrwydd i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae angen i gymunedau cydnerth gael eu cynnal gan gyflogaeth leol o ansawdd da, seilwaith cysylltiedig a sgiliau i weithio. Mae Cymunedau am Waith ac Esgyn yn rhaglenni cymorth cyflogadwyedd allweddol sy'n targedu'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf. Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn ategu hyn drwy ddarparu gwasanaethau i rieni ledled gweddill Cymru. Hyd yn hyn, mae'r rhaglenni Cymunedau am Waith, PaCE ac Esgyn ledled Cymru wedi cefnogi dros 11,000 o unigolion gyda dros 3,500 yn cael cyflogaeth, gan ragori ar eu targedau.

**Gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal**

Sefydlais Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant er mwyn gwella'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal ac i nodi pa gamau cynnar ac ataliol y gellid eu cymryd i gefnogi teuluoedd a phlant ar ymylon gofal. Mae gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn seiliedig ar dair thema, sef:

– Atal plant rhag mynd i ofal ac ymyrryd yn gynnar

- Gwella canlyniadau i blant sydd eisoes mewn gofal, a:
- Cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i gael dyfodol llwyddiannus ac i fyw'n annibynnol

Mae'r Grŵp yn datblygu nifer o ddarnau o waith fel rhan o'i raglen waith bellgyrhaeddol sy'n cynnwys ymchwil, datblygiadau a gwelliannau i ymarfer proffesiynol.

Cronfa Dydd Gŵyl Dewi gwerth £1 filiwn

Cyhoeddais yn ddiweddar Gronfa Dydd Gŵyl Dewi reolaidd o £1 filiwn i helpu pobl ifanc 16-25 oed, sydd dan ofal awdurdodau lleol, neu a fu mewn gofal o'r fath, i gael mynediad i gyfleoedd sy'n eu harwain at annibyniaeth a bywydau llwyddiannus.

Gweinyddir y gronfa mewn modd hyblyg a chreadigol gan awdurdodau lleol, i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn yr un modd ag y mae rhieni biolegol yn cefnogi eu plant, gan gynnwys y rôl 'banc mam a dad'. Gallai hyn olygu cymorth ariannol ar gyfer cael cartref, cyfarpar ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, talu am drafnidiaeth, gweithgareddau sy'n helpu i ddileu unigedd cymdeithasol, ac ati.

Cyllideb Ganlyniadol o £8 miliwn ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
Ym mis Mai, cyhoeddais tuag £8 miliwn o arian newydd o gyllideb ganlyniadol gofal cymdeithasol y DU, sy'n cefnogi ymhellach blant sy'n derbyn gofal ac yn sbarduno rhaglen waith Grŵp Cynghori'r Gweinidog sy'n parhau. Fe'i dyrannwyd i:

- Ehangu Gwasanaethau Ymylon Gofal (£5 miliwn)
- Ehangu'r prosiect Adlewyrchu ledled Cymru (£850,000)
- Cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal drwy:
  (i) Ymestyn y ddarpariaeth o gynghorwyr personol hyd at 25 oed (£1 filiwn);
  (ii) Cefnogi awdurdodau lleol yn eu darpariaeth o leoliadau gwaith/hyfforddiaethau ar gyfer pobl ifanc yn eu gofal (£625,000); a
- (iii) Gweithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol (£400,000)

Mae rhaglen newid dros dair blynedd yn cael ei datblygu hefyd i sicrhau'r buddiannau mwyaf o gyllideb ganlyniadol gofal cymdeithasol y DU a helpu i gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru.

**Datblygu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru**

Gwneir cynnydd da o ran datblygu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, a bydd yn cael ei roi ar waith yn gynnar mewn saith awdurdod lleol o fis Medi ymlaen. Mae Gwynedd ac Ynys Môn yn gweithio ar gynllun ar y cyd, a'r pum awdurdod sy'n weddill yw Blaenau Gwent, Caerffili, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe.

Bydd y cynnig yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant ar y cyd ar gyfer plant tair a phedair oed sydd y mae eu rhieni'n gymwys i gymryd rhan yn y cynllun. At ddibenion rhoi'r cynllun ar waith yn gynnar, mae 'rhiant sy'n gweithio' yn cyfeirio at rieni a gwarcheidwaid sy'n gweithio ac yn ennill swm cyfartalog bob wythnos sy'n cyfateb i 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol. Bydd angen i'r ddau riant mewn teulu dau riant, neu'r rhiant unigol mewn teulu un

rhiant, fodloni'r gofyniad hwn. Mae ein diffiniad o 'weithio' yn cynnwys y rhai sydd wedi'u cyflogi neu sy'n hunangyflogedig a rhieni ar gytundebau dim oriau, lle y gallant ddangos eu bod yn ennill yr isafswm cyflog dros gyfnod o dri mis. Cyhoeddwyd canllawiau manwl ar ein gwefan ar 12 Mehefin i'r saith awdurdod lleol sy'n rhoi hyn ar waith yn gynnar.

Gallaf gadarnhau y bydd unrhyw ddarparwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, neu OFSTED yn Lloegr, ac sy'n cael eu harolygu ganddynt, yn gallu darparu elfen gofal plant y cynnig o fis Medi ymlaen. Er bod yn rhaid i'r rhiant a'r plentyn fyw o fewn un o'r ardaloedd penodol o fewn yr awdurdodau sy'n rhoi'r cynnig ar waith yn gynnar, gall unrhyw leoliad gofal plant cofrestredig ddarparu elfen gofal plant y cynnig, lle bynnag mae'r lleoliad. Rwyf hefyd wedi cadarnhau y bydd darparwyr yn cael £4.50 yr awr ar gyfer y ddarpariaeth gofal plant o dan y cynnig. Bydd hyn yn gyfradd gyllidebu sengl ar draws yr holl awdurdodau sy'n rhoi'r cynnig ar waith yn gynnar, gan sicrhau eglurder a chysondeb o ran y cynnig gofal plant ar gyfer pob rhiant a darparwr.

Rydym yn disgwyl i'r cynnig fod ar gael i tua 5,000 o blant yn y flwyddyn gyntaf o roi'r cynnig ar waith yn gynnar, ac y bydd y saith awdurdod yn derbyn ceisiadau gan rieni cymwys ym mis Mehefin 2017. Bydd Blaenau Gwent yn treialu'r cynnig ar draws yr holl awdurdod, gyda'r profi'n digwydd mewn lleoliadau penodol ar draws y chwech arall.

Bydd yn bwysig dysgu oddi wrth yr awdurdodau hyn sy'n rhoi'r cynnig ar waith yn gynnar er mwyn ein helpu i fireinio polisïau a systemau cyn rhoi'r cynnig ar waith yn ehangach. Byddwn felly'n gwneud gwaith monitro a gwerthuso trylwyr o'r broses o roi'r cynnig gofal plant ar waith yn gynnar ar draws y saith awdurdod lleol. Mae'r cytundeb ar gyfer cynnal gwerthusiadau annibynnol yn mynd drwy broses dendro ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ddyfarnu ym mis Gorffennaf.

Yn ogystal â gweithio gyda'r rhai sy'n rhoi'r cynnig ar waith yn gynnar er mwyn dechrau cyflwyno'r cynnig, rydym yn gweithio ar y trefniadau i'w gyflwyno'n llawn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddaf yn cyflwyno Bil mewn perthynas â'r cynnig y flwyddyn nesaf. Bydd y Bil hwn yn ymwneud â'r prosesau gwneud cais, gwirio cymhwysedd a thalu, a sicrhau bod y systemau prosesu a diogelu perthnasol ar waith ar gyfer casglu data.

**Diweddariadau i'r Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y Pumed Cynulliad**

Mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ar y Ddarpariaeth o ran Eiriolaeth Statudol (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016), sefydlwyd Grŵp Technegol Llywodraeth Leol (o dan arweiniad Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) i ddatblygu Cynllun Gweithredu i roi hyn ar waith, gan edrych ar y ffordd orau y gellir cefnogi awdurdodau lleol a rhanbarthau ac i nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau dull gweithredu cenedlaethol. Yma, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Rheolwr Gweithredu i weithio gyda'r holl ranbarthau.

Mewn cyfarfod o'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol ar 13 Mehefin, cyflwynodd CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru adroddiad ar y cynnydd sylweddol a wnaed gan awdurdodau lleol dros y misoedd diwethaf. Mae pob un o'r chwe rhanbarth bellach wedi ymrwymo i weithredu'r Dull Gweithredu Cenedlaethol yn llawn ac mae ganddynt drefniadau ar waith i alluogi hyn. Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu hyd at £550,000 i'r rhanbarthau drwy grant rhanbarthol ar gyfer y blynyddoedd 2017/18 a 2018/19 ac mae'r holl ranbarthau wedi derbyn eu llythyrau grant.

Mae'r dull hwn yn cynnwys y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch y datganiad canlyniad yn y Fframwaith ac wedi datblygu drafft terfynol y Fframwaith. Bydd y Fframwaith bellach yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r ymatebion. Cytunodd y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol i adolygu'r cynnydd a wnaed o ran y dull cenedlaethol yn yr hydref.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Eitem 3.1

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru

10 Gorffennaf 2017

Annwyl Alun

**Gwaith Ieuenctid yng Nghymru**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 21 Mehefin, mewn ymateb i lythyr y Pwyllgor, dyddiedig 25 Mai. Diolch hefyd am ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor mewn perthynas â'n hargymhellion sy'n rhwymedig i amser.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi sefyllfa Llywodraeth Cymru, a'r amserlen yr ydych wedi'i nodi yn eich llythyr, o ran adolygu Estyn Hawl a materion eraill. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am y diweddariad hwn. Rydym hefyd yn ymwybodol o adolygiadau a gwerthusiadau eraill Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid sydd i gyflwyno eu hadroddiadau, fel yr adolygiad yn ymwneud â'r Cynllun Grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol, a byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael gwybod am ddatblygiadau sy'n codi o'r ffrydiau gwaith hyn.

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'n fwriad gan y Pwyllgor i adolygu cynnydd o ran gwaith ieuenctid ar sail barhaus. Bydd y Pwyllgor yn monitro'n ofalus y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas â gwaith ieuenctid, a byddwn yn ceisio trefnu sesiwn graffu ffurfiol gyda chi yn y Flwyddyn Newydd i asesu cynnydd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Fel rhan o'n dull gweithredu, byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn hyn o beth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallem drefnu cyfarfod yn nhymor yr Hydref i drafod nifer o faterion a godwyd gyda mi gan randdeiliaid.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**

**Cadeirydd**

**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA(L)/KW/0396/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCYPE@assembly.wales
SeneddFinance@assembly.wales

11 Gorffennaf 2017

Annwyl Lynne a Simon,

Ysgrifennaf atoch i dynnu eich sylw chi a'ch cymunedau at ddatganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd heddiw am y rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol.

Ym mis Mawrth, ysgrifennais atoch gyda rhagor o wybodaeth am sut y bydd y pecyn cymorth £20 miliwn ar gyfer y rhaglen trawsnewid yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r gwaith o weithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r rhaglen ehangach. Ar y pryd, dywedais y gallai'r dyraniadau hyn newid wrth i'n gwaith gyda phartneriaid cyflenwi fynd rhagddo. Mae'r gwaith cyd-ddatblygu hwn yn parhau, ond rwyf wedi cytuno ar elfen sylweddol o'n dull o weithredu - sef cyllido pum arweinydd trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol a fydd yn cefnogi darpariaeth y rhaglen.

Bydd pedwar o'r arweinwyr trawsnewid yn gweithio yn unol ag ôl-troed y consortia addysg rhanbarthol a bydd yna hefyd arweinydd trawsnewid addysg bellach a fydd yn gweithio ledled Cymru gyfan. Bydd yr arweinwyr yn gwneud cyfraniad hollbwysig at roi ein strategaeth ar waith, gan sicrhau bod partneriaid cyflenwi yn barod, gydag adnoddau digonol, wedi'u hyfforddi ac yn cydweithio er budd plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gan ofalu bod y dysgwyr hyn yn ganolog ym mhopeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn parhau i drafod â Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru a bwrdd Colegau Cymru a byddaf mewn sefyllfa i ddweud mwy am y rolau hyn yn yr hydref.

Mae'r datganiad ysgrifenedig hefyd yn cadarnhau y bydd grantiau gweithredu awdurdodau lleol yn cael eu cyfuno'n rhanbarthol. Bydd hyn yn sicrhau bod ein buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial drwy ymelwa ar arbedion maint a hwyluso gwell cynllunio a gwaith rhanbarthol. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o fiwrocratiaeth mewn perthynas â'r grantiau a bod y ffocws ar ddarpariaeth gwasanaeth a gwerth am arian. Bydd hyn yn mynd i'r afael ag argymhelliad pedwar yn adroddiad cam 1 y Pwyllgor Cyllid i'r Bil.

Byddaf yn darparu dadansoddiad diwygiedig o'r costau ar gyfer gweithgareddau yn y rhaglen drawsnewid yn yr hydref. Byddaf yn gwneud hyn wrth gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r asesiad effaith rheoleiddiol.

Yn gywir

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee



Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

12 Gorffennaf 2017

Annwyl Vaughan

**Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion Diwygiedig**

Diolch i chi am rannu copi o'r Fframwaith Nyrsio mewn Ysgolion Diwygiedig, y gwnaeth y Pwyllgor ei nodi gyda diddordeb yn ei gyfarfod ar 14 Mehefin.

Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r sylw gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, a ddaeth gyda chyhoeddiad y Fframwaith Diwygiedig ym mis Mai:

> "Mae'n bwysig pwysleisio nad yw nyrsys ysgol yn gyfrifol am gymorth cyntaf yn unig; maent yn cynllunio ac yn cydgysylltu gofal i ddysgwyr ag anghenion iechyd cronig er mwyn iddynt gymryd rhan yn yr ysgol. Maent hefyd yn hwyluswyr ac yn eiriolwyr i lawer o blant."

O'r herwydd hynny, roeddem yn synnu gweld nad oedd y Fframwaith Diwygiedig yn sôn am gyflyrau hirdymor neu gronig, na'r canllawiau anghenion gofal iechyd presennol, a byddem yn ddiolchgar os gallwch egluro pam bod y rhain wedi'u gadael allan.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Kirsty Williams, ac Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

CYPE(5)-23-17 - Papur 5 - i'w nodi

Eitem 3.4

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Gorffennaf 2017

Annwyl Gadeirydd

**Gweithredu Deddf Cymru 2017**

Fel y gwyddoch, mae Deddf Cymru 2017 yn darparu bod yn rhaid i Ysgrifennydd Gwladol Cymru benodi, drwy reoliadau, 'brif ddiwrnod penodedig', pan ddaw'r model cadw pwerau newydd i rym. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â mi, fel Llywydd, cyn gwneud rheoliadau o'r fath.

Amgaeaf lythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn nodi ei fwriad i bennu **6 Ebrill 2018** fel y prif ddiwrnod penodedig. Mae hefyd yn nodi ei fod yn bwriadu cychwyn y rhan fwyaf o'r darpariaethau sy'n weddill yn Neddf Cymru ar yr un pryd.

Byddwch yn sylwi o lythyr yr Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn bwriadu ysgrifennu eto o ran goblygiadau'r sesiwn Seneddol ddwy flynedd i'r broses Cydsyniad Deddfwriaethol. Byddaf yn rhannu'r llythyr hwn gyda chi maes o law.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i mi erbyn dydd Gwener 28 Gorffennaf a oes gan eich pwyllgorau unrhyw sylwadau i'w gwneud ar gynigion yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn gywir

Elin Jones

Elin Jones AC
Llywydd

Amg

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

UK Government
Llywodraeth y DU

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ

www.gov.uk/wales www.gov.uk/cymru

Elin Jones AM
Presiding Officer
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ref: 250SUB 17

10th July 2017

Dear Elin,

I am writing regarding the implementation of the Wales Act 2017. The Act provides for the Secretary of State to appoint, through regulations, a "principal appointed day" (PAD) on which the new reserved powers model comes into force. The Act specifies that I consult the Welsh Ministers and the Assembly's Presiding Officer before making regulations appointing the PAD. I am therefore writing to seek your views on my proposal to specify **6 April 2018 as the principal appointed day**.

Three key factors have informed my proposed date. Firstly, the need to implement the new reserved powers model of Welsh devolution as soon as practicable, to provide a clearer settlement and a well-defined division between devolved and reserved responsibilities. The lack of clarity that is a feature of the current Welsh devolution settlement continues to hinder our administrations working together as effectively as they might.

The 2017 Act requires the PAD to be at least four months after the regulations appointing the date are made. Making these regulations this autumn would provide Parliament, the National Assembly for Wales and both our governments with sufficient notice to prepare for the new model.

Secondly, as you know the new devolved taxes - the Land Transaction Tax and Landfill Disposals Tax - come on stream on 6 April 2018. Bringing the reserved powers model into force on the same day would deliver a strong message that Welsh devolution has come of age.

Thirdly, we need to be clear about the model of Welsh devolution which applies as we prepare for our exit from the European Union. Implementing the reserved powers model in April 2018 provides us with sufficient time to make the necessary preparations before exit day.

I also propose to commence most of the remaining sections of the Wales Act 2017 in the same order. These sections devolve further powers to the National Assembly and the Welsh Ministers. The devolution of these powers is already reflected in the reserved powers model and so it makes sense to bring these sections into force at the same time.

The current session of Parliament will run until 2019, meaning the new reserved powers model would be brought force mid-way through the session. Clearly this has implications for any Legislative Consent Motions that may be required, and my officials are working to assess the impact. I will write to you once this analysis is completed. You will be aware that under Schedule 7 to the 2017 Act the current *conferred* powers model would continue to apply to those Assembly Bills which have passed Stage 1 by the PAD.

I would be grateful to receive your response by **4 September**, enabling the regulations to be drafted by early autumn. I am happy to share with you the regulations in draft before they are laid.

I am writing in similar terms to the First Minister of Wales.

Yours,

**Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

**12 Gorffennaf 2017**

## Sylwadau Terfynol: Blwyddyn yn Ddiweddarach

Ar 12 Gorffennaf 2017 bydd un flwyddyn wedi mynd heibio ers i Sylwadau Terfynol diweddaraf Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn gael eu cyhoeddi ar gyfer y Deyrnas Unedig.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac mae'r confensiwn hefyd yn rhan uniongyrchol o broses llunio cyfreithiau yng Nghymru, trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn monitro a yw CCUHP yn cael effaith gadarnhaol mewn gwledydd sydd wedi ymrwymo iddo, ac maent yn llunio argymhellion neu "Sylwadau Terfynol" bob pum mlynedd ar feysydd lle maen nhw'n credu y gallai hawliau plant gael eu hamddiffyn yn well.

Mae rhai argymhellion, fel codi'r oed pryd y gellir cyhuddo plentyn o dramgwydd droseddol, yn nwylo Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn sgîl datganoli, mae argymhellion eraill yn nwylo Llywodraeth Cymru, er enghraifft darparu cefnogaeth i blant mewn gofal ac ymadawyr gofal.

Fel Comisiynydd Plant Cymru byddwn i wedi hoffi gweld ymateb clir a chynllun manwl gan Lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig mewn ymateb i Sylwadau Terfynol y CU. Yn absenoldeb hynny, rwy'n cyhoeddi'r crynodeb byr hwn o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt o hyd.

**Pobl ifanc sy'n gadael gofal**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhai camau cadarnhaol. Bu cyhoeddiadau diweddar ynghylch mwy o gymorth ariannol i ymadawyr gofal ac ymrwymiad i archwilio cefnogaeth ychwanegol trwy ymgynghorwyr personol hyd at 25 oed. Mae gwaith yn digwydd hefyd gyda'r nod o leihau niferoedd y plant a'r bobl ifanc sy'n mynd i ofal a gwella profiadau yn ystod cyfnodau o ofal.

**Iechyd meddwl**

Gwnaed peth cynnydd o ran gwella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl i blant, ac mae targedau amser aros uchelgeisiol bellach yn eu lle, er y bydd angen cynnal y buddsoddiad a'r ffocws i sicrhau bod plant yn derbyn y gefnogaeth a'r driniaeth iechyd meddwl sydd eu hangen arnyn nhw, a hynny ar yr adeg ac yn y man angenrheidiol.

**Addysg**

Nod Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) yw sicrhau gwelliannau sylweddol i brofiadau addysgol plant ag anghenion ychwanegol.

**Cyfranogiad**

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau/We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats.

Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
T 01792 765600 F 01792 765601

post@complantcymru.org.uk
post@childcomwales.org.uk
www.complantcymru.org.uk
www.childcomwales.org.uk

Mae mecanweithiau ar gyfer cyfranogiad ystyrlon plant a phobl ifanc wedi'u cynnwys yn sylwadau'r Pwyllgor. Mae camau rhagweithiol eisoes wedi'u cymryd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sefydlu Senedd Ieuenctid ac edrych ar y posibilrwydd o ddiwygio pleidleisio, fel bod pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio. Mae'r rhain yn bwysig er mwyn ymgysylltu â phobl iau a'u cynnwys mewn prosesau gwleidyddol ac wrth wneud penderfyniadau yma yng Nghymru.

Er gwaethaf y datblygiadau cadarnhaol hyn gan Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, mae rhai meysydd allweddol wedi'u hamlygu gan Bwyllgor y CU lle nad yw hawliau plant yn cael eu gweithredu'n llawn yng Nghymru. Mae'r rhain felly yn dargedau pwysig i Lywodraeth Cymru eu datblygu yn ystod y tymor Cynulliad hwn.

**Ystyried hawliau plant**

Ni ddylai rhoi ystyriaeth i hawliau plant – neu sylw dyledus i CCUHP – ddechrau a gorffen gyda Gweinidogion Cymru. Er mwyn i blant fedru gweld y gwahaniaeth mae sylw dyledus i'w hawliau yn ei wneud yn eu bywydau beunydiol, dylai'r dyletswyddau i roi sylw gweithredol i hawliau plant a hybu eu lles pennaf dreiddio lawr i'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, trwy gynnwys dyletswydd sylw dyledus mewn deddfwriaeth sylfaenol berthnasol fel y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru). Byddai hynny'n cydymffurfio â'r Sylwadau Terfynol sy'n galw am integreiddio hawliau plant i sicrhau bod eu lles pennaf yn ystyriaeth sylfaenol ym mhob deddfwriaeth a pholisi sy'n cael effaith ar blant.

**Amddiffyniad cyfartal**

Rhaid i blant ac oedolion gael amddiffyniad cyfartal rhag ymosodiad. Rwy'n nodi'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ynghylch dileu amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru. Rwy'n dal i gredu ei fod yn hanfodol symud ymlaen yn gyflym i basio'r ddeddfwriaeth a fydd yn dileu'r amddiffyniad hwnnw. Fel cymdeithas, bu newid sylweddol yn ein dealltwriaeth a'n parodrwydd i dderbyn trais domestig rhwng oedolion; mae'n bryd i ni weld yr un newid yng nghyswllt plant, gan nad oes cyfiawnhad rhesymegol dros daro plentyn.

**Tlodi plant**

Mae tlodi plant yn fater sy'n effeithio ar lawer o blant yng Nghymru, ac mae pryderon ynghylch Brexit a dileu ffynonellau cyllid cymunedol yn bryder gwirioneddol i deuluoedd a phlant yng Nghymru. Er bod rhai materion megis diwygio lles yn nwylo Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mynegodd Pwyllgor y CU bryder ynghylch dileu targedau tlodi plant a'r strategaethau tlodi plant statudol. Byddai targedau diriaethol a strategaeth fesuradwy ar gyfer lleihau tlodi plant yn cynnal y ffocws ar y maes hwn, yn sgîl ei effaith bosibl ar ddatblygiad a llesiant plentyn.

**Iechyd Meddwl**

Mae llawer o waith yn digwydd i ddiwygio sut mae gwasanaethau iechyd meddwl i blant yn cael eu strwythuro a'u cyflwyno trwy'r rhaglen T4CYP, ac ochr yn ochr â hynny mae'r cwricwlwm cyfan yng Nghymru yn cael ei ddiwygio. Fe hoffwn i weld mwy o alinio rhwng y ddau ddarn yma o waith, a bydd

defnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant o'r cychwyn cyntaf yn sicrhau bod yr holl waith yma'n rhannu gwerthoedd a iaith sy'n gyffredin, a bod hawliau plant yn cael eu gwireddu yn eu profiadau pob dydd. Mae fy nghanllaw a gyhoeddwyd yn ddiweddar, "Y Ffordd Gywir" yn rhoi enghreifftiau o sut gall dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant o ymdrin â gwasanaethau cyhoeddus gael ei wreiddio ym mhob maes o ran polisi, gwneud penderfyniadau ac ymarfer er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid ar hyd y tymor Cynulliad hwn i gyflawni hynny.

**Materion heb eu datganoli**

Rwy'n annog Llywodraeth Cymru ac ASau Cymru o bob plaid i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i symud ymlaen gyda'r Sylwadau Terfynol heb eu datganoli sy'n effeithio ar blant yng Nghymru, gan gynnwys codi oed Cyfrifoldeb Troseddol a gwyrdroi newidiadau treth a budd-dal a fydd yn cael effaith anghymesur ar blant.

Mae'n bwysig bod hawliau plant yn parhau i gael eu hamddiffyn a'u hybu ledled Cymru. Gall Cymru ymfalchïo yn ei hymrwymiadau i hawliau plant hyd yma, ond rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyfreithiau a pholisïau'n cael eu datblygu gyda'r hawliau hyn mewn lle amlwg. Bydd defnydd systematig o Asesiadau Effaith Hawliau Plant fel mater o drefn ym mhob maes polisi yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Sylwadau Terfynol ond hefyd yn dod â hawliau plant i'r blaen ym meysydd polisi ac ymarfer, gan gyflawni'r ymrwymiad parhaus i amddiffyn a hybu'r hawliau hynny ymhlith holl blant Cymru.



Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Busnes

**National Assembly for Wales**
Business Committee

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

12 Gorffennaf 2017

Annwyl Lynne

**Rhaglennu deddfwriaeth sydd ar y gweill**

Fel y gwyddoch, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur yn ddiweddar yn nodi'r ystod o ddeddfwriaeth y bwriedir eu cyflwyno o fewn y deuddeg mis nesaf.

Roedd Rheolwyr Busnes o'r farn y byddai'n briodol i wneud penderfyniadau ‘mewn egwyddor’ o ran pa bwyllgorau y bydd Mesurau y bwriedir eu cyflwyno o fewn y deuddeg mis nesaf yn cael eu cyfeirio atynt, er mwyn helpu pwyllgorau gyda'u gwaith cynllunio.

Ymysg y cynigion deddfwriaethol hyn mae Mesur arfaethedig ar Brosesu Ceisiadau Cynnig Gofal Plant, mater yr ymddengys ei fod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi, cyn diwedd y tymor, a oes gennych unrhyw farn ar y penderfyniad i gyfeirio, mewn egwyddor, y Mesur hwn sydd ar y gweill at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.  Bydd yn galluogi Rheolwyr Busnes i gadarnhau, ar ddechrau toriad yr haf, eu penderfyniadau o ran pa bwyllgorau y caiff Mesurau y bwriedir eu cyflwyno o fewn y deuddeg mis nesaf eu cyfeirio atynt.

Yn gywir

**Elin Jones AC**
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSiambr@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/PwyllgorBusnes
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddChamber@assembly.wales
www.assembly.wales/BusinessCommittee
0300 200 6565

Wales UNCRC Monitoring Group

Grŵp Monitro CCUHP Cymru

**DATGANIAD: PEN-BLWYDD SWYDDOGOL CYNTAF SYLWADAU CASGLIADOL PWYLLGOR Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN**

I ddathlu pen-blwydd swyddogol cyntaf Sylwadau Casgliadol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y 'Pwyllgor' wedi hyn) yn cyhoeddi eu Sylwadau Casgliadol i lywodraethau'r Deyrnas Unedig a'r cenhedloedd datganoledig, mae Grŵp Monitro CCUHP yn dymuno manteisio ar y cyfle hwn i gydnabod y cynnydd a wnaed ers Gorffennaf diwethaf, ar yr un pryd â chadarnhau'r angen am fwy o frys er mwyn i argymhellion y Pwyllgor gael eu gweithredu'n llawn yn unol â'r bwriad.

Croesawodd y Pwyllgor y camau cadarnhaol sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru tuag at ymgorffori CCUHP yn llawn yn y gyfraith ddomestig, gan gydnabod bod cynnydd da wedi ei wneud i sicrhau ac amddiffyn hawliau llawer o blant a phobl ifanc, sydd wedi eu cadarnhau ers hynny drwy benodi Ysgrifennydd y Cabinet â chyfrifoldeb penodol dros hawliau plant a sefydlu Grŵp Ymgynghorol Hawliau Plant gyda chynrychiolaeth allanol.

Rydym hefyd yn cydnabod y camau cadarnhaol i ymdrin â nifer o'r pryderon pennaf a godwyd gan y Pwyllgor a chan Grŵp Monitro CCUHP yn ein hadroddiad mewn perthynas â chamau i ymdrin ag iechyd meddwl gwael plant a phobl ifanc, gwella'r canlyniadau i blant sydd mewn gofal ac yn ymadael â gofal a chau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol.

Croesawn hefyd gyhoeddiadau mwy diweddar ynghylch blaenoriaethau'r dyfodol gan gynnwys yr ymrwymiad

- I ymgynghori ar gynigion i ddileu amddiffyniad cerydd rhesymol cyn cyflwyno deddfwriaeth yn nhrydedd blwyddyn tymor y Cynulliad.
- Diwygio'r system bleidleisio ac estyn y bleidlais i bobl 16-17 mlwydd oed.
- Adolygu ac ymgynghori ar Gynllun Cyflawni newydd ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches fel rhan o raglen waith i gyflawni argymhellion Adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad.

Bydd y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y Cynulliad tuag at sefydlu Senedd Ieuenctid i bobl ifanc yng Nghymru yn rhoi hwb pellach i hawliau cyfranogol plant a chraffu ar y broses ddemocrataidd.

Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor nifer o feysydd sy'n galw am gamau brys er mwyn i hawliau plant yng Nghymru gael eu gwireddu ymhellach. Yn benodol, dymunwn dynnu sylw at y blaenoriaethau canlynol lle gallai cynnydd gael ei gyflymu.

Dylai Llywodraeth Cymru

- Sicrhau bod ansawdd Asesiadau Effaith Hawliau Plant syn cael eu cynnal yn gyson ar bob polisi, penderfyniad cyllidebol a deddfwriaeth arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar blant a phobl ifanc, a threfnu bod y rhain ar gael yn amserol fel rhan o'r drefn i randdeiliaid allanol, ac am graffu gan blant a phobl ifanc a ddylai fod yn rhan o waith eu paratoi hefyd.

- Cryfhau cyd-drefnu a gwerthuso gweithrediad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig, gyda digon o adnoddau dynol, technegol ac ariannol, gan gynnwys sicrhau bod grŵp gweithredu strategol lefel uchel o fewn Llywodraeth Cymru yn ei le ac yn gyson â'r trefniadau a bennwyd yn y Cynllun Hawliau Plant i gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus.

- Cyhoeddi rhaglen weithredu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n pennu sut mae hawliau plant yn cael eu hintegreiddio'n llawn ym mlaen-raglen waith polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

- Sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth newydd a phresennol yn cydymffurfio'n llawn â'r Confensiwn, a bod y ddyletswydd sylw dyledus bresennol yn cael ei pharchu'n gyson.

- Cryfhau dadansoddiad holl wariant y Llywodraeth ar blant fel rhan o'r drefn, a chyhoeddi Asesiadau Effaith Hawliau Plant o gyllidebau.

- Sicrhau bod ymagwedd strategol genedlaethol gynhwysfawr, a strwythur parhaol, ar gyfer cyfranogiad systematig yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru.

- Cynyddu pob ymdrech i ddileu tlodi plant a sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud wrth gyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant a bod adrodd ar y cynnydd hwn.

- Y dylai Llywodraeth Cymru wneud cynrychiolaeth frys i Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r effeithiau andwyol mae newidiadau i gymorth cyfreithiol yn eu cael ar blant.
- Sicrhau nad oes unrhyw leihad o ran amddiffyn hawliau plant yn y gyfraith yn sgîl proses Brexit.
- Cefnogi'r pryderon difrifol a nodwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â lefelau tlodi plant, ac effaith andwyol diwygio lles ar rai plant a'u teuluoedd.

## Ynglŷn â Grŵp Monitro CCUHP

Cynghrair genedlaethol o gyrff anllywodraethol ac asiantaethau academaidd sy'n cael ei galw ynghyd a'i chadeirio gan raglen Achub y Plant yng Nghymru yw Grŵp Monitro CCUHP Cymru. Mae'r grŵp yn gyfrifol am fonitro a hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru. Sefydlwyd Grŵp Monitro CCUHP yn 2002 ac fe'i hyrwyddir gan Blant yng Nghymru, y sefydliad ymbarél cenedlaethol. Ers 2002, bu'r Grŵp yn gweithio gyda Phwyllgor y CU ar Hawliau Plant a chyflwynodd adroddiadau dinesig er mwyn llywio Archwiliadau olynol Gwladwriaeth sy'n Barti'r DU.

Mae aelodau'r Grŵp Monitro'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff anllywodraethol ac academyddion ac fe'u henwebwyd ganddynt - Barnado's Cymru, Canolfan Materion Cyfreithiol Cymreig Prifysgol Aberystwyth, Plant yng Nghymru, Sylwedyddion: Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru), NSPCC Wales/Cymru, Play Wales, Achub y Plant yng Nghymru, UNICEF (sylwedyddion), Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Association (sylwedyddion)

Children in Wales
Plant yng Nghymru

12. Gorffennaf. 2017

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon